Ymgynghoriad Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Derbyniaf fod plant yn grŵp hynod o bwysig ar gyfer datblygiad a dyfodol y Gymraeg a bod yn rhaid i S4C chwarae rhan pwysig i ddatblygu'u sgiliau yn yr iaith.

Serch hynny hoffwn pwyntio allan bod pryder cynyddol yn nifer o oriau teledu i blant wylio ac ei bod yn bosibl y bydd cyfyngderau yn y dyfodol i'r perwyl hyn.

Yr ail beth yw efallai y gallaf gynnig ffordd i ddatrys y pryder yr amlinellir yn eich "opsiynau". Yn amlwg mae gwasanaeth plant â'r Cynulliad yn lletchwith â'i gilydd. Dydyn nhw ddim yn cydweddu, ond mae gennyf ateb, efallai.

Cefais sgyrsiau am fy nghynllun â Dafydd Iwan, Owen John Thomas a Rhodri Williams (OFCOM). I ddechrau eu barn nhw oedd fy mod i'n wallgof nes iddynt wrando ar fy nghynllun. Heb fynd i mewn i fanylder ar hyn o bryd rwy'n siŵr ei bod hi'n bosibl cael gwasanaeth sydd i bob pwrpas yn Newyddion 24awr ar y cyd â'r gwasanaeth Cynulliad a all wneud elw.

Does ond sylweddoli bod gwasanaethau megis CNN, France 24, Sky 24, Al Jazeera 24 ac ati yn cael wyth hysbyseb 30 eiliad yr awr. Golyga hyn £70,080,000 ar sylfaen £1,000 yr hysbyseb. Neu, i godi £3milliwn byddai angen £45 yr hysbyseb ar 70,080 ohonynt (hynny yw blwyddyn o wyth hysbyseb yr awr). Byddai'n posibl talu am y sianel newyddion a chyfrannu at y gwasanaeth plant. I weithio mae rhaid cadw'r costau i lawr a gwneud y gwasanaeth yn weledol gwahanol. Mae gennyf syniadau parthed hyn i gyd i mi feddwl sy'n ymarferol. Byddaf yn falch o'r cyfle i fanylu a thrafod y rhain ar unrhyw adeg. Mae mor syml i mi synnu nad oes neb wedi meddwl amdani erioed.

D. Gwynfor Davies
Ymgynghoryddd TG
IT Consultant
Caerdydd/Cardiff
Cymru/Wales